ADDUNEDAU BLWYDDYN NEWYDD

SYNIADAU ar gyfer gweithgareddau i blant 7-14 oed

Llun: Sam Baggette/Oxfam

OXFAM

Gwybodaeth am yr adnodd hwn

Ddechrau'r flwyddyn, boed hynny'n ddechrau'r flwyddyn galendr neu'r flwyddyn ysgol, mae pobl yn aml yn myfyrio ac yn gwneud addunedau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r pandemig byd-eang wedi achosi i lawer ohonom ailystyried ein cysylltiadau â'r bobl sydd o'n cwmpas a'r hyn yr ydym yn ei werthfawrogi fwyaf mewn bywyd. Mae hefyd wedi gwneud i lawer o bobl feddwl sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i greu dyfodol mwy teg a chynaliadwy i bawb.

Gellir defnyddio'r gweithgareddau a ganlyn i helpu dysgwyr 7-14 oed i fyfyrio ar eu rôl eu hunain yn eu hysgol, yn y gymuned ac fel dinasyddion byd-eang; a'u cefnogi i osod nodau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae yna hefyd sioe sleidiau gysylltiedig i'w cefnogi wrth iddynt ddysgu a meddwl.

Cynnwys

Gwybodaeth am yr adnodd hwn	2
Gweithgaredd 1 – Dyfodol delfrydol	3
Gweithgaredd 2 – Beth y gallaf ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth?	4
Gweithgaredd 3 – Creu addunedau Blwyddyn Newydd	5
Gweithgaredd 4 – Addunedau'r dosbarth	6
Gweithgaredd 5 – Myfyrio ar addunedau	6
Dolenni ac adnoddau defnyddiol	7

Deilliannau dysgu

Bydd y dysgwyr yn gwneud y canlynol:

1. myfyrio ynglŷn â sut y byddai eu dyfodol delfrydol yn edrych
2. ystyried rhwystrau posibl a allai eu hatal rhag sicrhau eu dyfodol delfrydol
3. meddwl yn feirniadol ynglŷn â pha gamau y mae eu hangen i wneud eu dyfodol yn realiti
4. myfyrio ynglŷn â'r cynnydd y maent wedi'i wneud â'u haddunedau

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

> **Cymru:** Iechyd a Llesiant/y Dyniaethau/Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd – Dyfodol delfrydol

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu sut y byddent yn hoffi iddynt hwy eu hunain, eu hysgol, eu cymuned leol neu'r byd fod yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai y byddent yn hoffi i bobl fod yn fwy caredig tuag at ei gilydd, neu i wneud mwy i warchod yr amgylchedd, neu efallai y byddent yn hoffi gweld byd tecach.
- Rhowch ddarn o bapur A4 i bob dysgwr a gofynnwch iddynt ei rannu'n bedair rhan. Dywedwch wrth y dysgwyr y gallant ddefnyddio pob cwadrant i bortreadu eu dyfodol delfrydol gan ddefnyddio lluniau a geiriau, neu y gallant wneud *collage* gan ddefnyddio cyfuniad o luniau, geiriau a darnau wedi'u torri o gylchgronau neu bapurau newydd. Eglurwch y dylai'r pedwar cwadrant gynrychioli 'Fi', 'Fy ysgol', 'Fy nghymuned leol' ac 'Ein byd'. Mae diagram enghreifftiol i'w weld isod ac ar sleid 2 yn y sioe sleidiau.

Fi, fy nheulu a'm ffrindiau	**Fy ysgol**
Fy nghymuned leol	**Ein byd**

- Mewn grwpiau o bedwar, gofynnwch i'r dysgwyr rannu'r portreadau o'u dyfodol delfrydol.
- Yn olaf, gwahoddwch y dysgwyr i rannu ychydig o syniadau ynglŷn â'u dyfodol delfrydol fel dosbarth neu grŵp cyfan. Ymhlith y cwestiynau trafod posibl y mae:
  - Pa rwystrau a allai atal fy nyfodol delfrydol? Efallai y byddai'r dysgwyr yn hoffi cofnodi'r rhain ar bapurau gludiog o amgylch ymyl eu darn o bapur.
  - Pa rai o'm syniadau yr ydw i'n meddwl eu bod yn fwyaf tebygol o ddigwydd? Pa rai yr ydw i'n meddwl eu bod yn lleiaf tebygol o ddigwydd? Pam yr ydw i'n meddwl hyn?
  - A ydw i'n meddwl bod pobl eraill yn rhannu fy ngweledigaeth o'r dyfodol?
  - Beth y mae angen iddo newid er mwyn i'm dyfodol delfrydol ddod yn realiti?
  - Pwy ydw i'n meddwl y byddai'n gallu gwneud rhywbeth, neu a ddylai wneud rhywbeth?
  - Beth fyddai unigolion yn gallu ei wneud i helpu i greu'r dyfodol delfrydol hwn? Efallai y byddai'n werth gwneud y pwynt y bydd yna bob amser rai pethau mewn bywyd na allwn eu rheoli. Er hyn, mae yna hefyd bethau y gallwn eu rheoli, er enghraifft sut yr ydym yn ymateb i ddigwyddiadau ac i bobl eraill.
  - A ydw i'n meddwl y gall unigolion ddylanwadu ar ein dyfodol, ynteu a oes angen i ni gael grwpiau mwy o bobl i weithio gyda'i gilydd er mwyn newid pethau?

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd – Beth y gallaf ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Rhowch ddarn mwy o bapur i bob dysgwr a gofynnwch iddo ei rannu'n gwadrantau, fel y gwnaeth yn y gweithgaredd blaenorol (Dyfodol delfrydol). Yna dylai'r dysgwyr roi eu portread o'u 'dyfodol delfrydol' yng nghanol y darn mwy o bapur. Mae diagram enghreifftiol i'w weld isod ac ar sleid 3.



- Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ynglŷn â beth y maent yn ei wneud yn barod, neu beth y gallent ei wneud fel unigolion er mwyn creu eu 'dyfodol delfrydol'. Eglurwch y gall y rhain fod yn weithredoedd bach neu fawr, er enghraifft bod yn garedig tuag at bobl eraill, gwneud mwy o ymarfer corff, dysgu rhywbeth newydd, ceisio lleihau eu hôl troed carbon, bod yn rhan o gyngor yr ysgol neu wirfoddoli yn eu cymuned leol. Gellid defnyddio'r syniadau ar sleidiau 4 i 7 i'w helpu i feddwl.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu syniadau yng nghwadrantau'r darn mwy o bapur, fel bod pob gweithred yn cyfateb i gwadrant mwyaf perthnasol eu 'dyfodol delfrydol'.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod mewn parau pa gamau eraill y gallent eu cymryd fel unigolion i gyfrannu tuag at eu dyfodol delfrydol. Dylai pob un ysgrifennu'r syniadau hyn â beiro neu bensel o liw gwahanol yng nghwadrantau perthynol eu darn mwy o bapur.
- Gofynnwch i bob pâr ymuno â phâr arall i ffurfio grŵp o bedwar. Dylai'r dysgwyr rannu eu syniadau ynglŷn â'r gwahanol gamau y gallai unigolion eu cymryd, cyn trafod y cwestiynau a ganlyn:
  - Sut y bydd y cam gweithredu hwn yn gwneud gwahaniaeth? Pwy a beth a allai gael ei effeithio?
  - A ellir ei gyflawni? Beth y byddai angen i mi ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod y cam gweithredu hwn yn digwydd? Pwy fyddai'n gallu fy helpu?
  - Sut y byddwn i'n gallu dylanwadu ar bobl eraill i wneud hyn?
- Gorffennwch trwy rannu syniadau'r dysgwyr â'r dosbarth cyfan.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd – Creu addunedau Blwyddyn Newydd

- Trefnwch y dysgwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Gofynnwch iddynt ddewis y naw cam gweithredu y maent yn eu hoffi fwyaf o'r rhai a drafodwyd yn y gweithgaredd Beth y gallaf ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth?. Dylent ysgrifennu pob adduned ar bapur gludiog neu gerdyn.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried eu syniadau a'u graddio ar sail meini prawf i gael 'naw ar ffurf diemwnt'. Gallai'r meini prawf gynnwys: pa gamau gweithredu y maent yn teimlo y byddant yn cael yr effaith fwyaf, pa rai yw'r rhai pwysicaf, a pha mor hawdd y byddai cam gweithredu. Mae diagram enghreifftiol i'w weld isod ac ar sleid 8.
- Mae manylion llawn ynglŷn â sut i fynd ati i raddio 'naw ar ffurf diemwnt' i'w gweld gan Oxfam yn Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth: Canllaw i athrawon (t.19):



- Rhowch amser i'r dysgwyr ymuno â grŵp arall i drafod y modd y maent yn graddio'r syniadau a nodi pethau sy'n debyg neu'n wahanol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr, fel unigolion, ddewis y tair adduned y maent yn eu hoffi fwyaf i'w rhoi ar waith yn ystod y tymor neu'r flwyddyn nesaf. Gofynnwch iddynt ysgrifennu'r rhesymau pam y maent wedi dewis pob un. Gallent ddefnyddio'r cwestiynau allweddol isod i'w helpu i feddwl:
  - Beth yw diben yr adduned hon? Beth y bydd yn ei gyflawni?
  - Pam y mae'r adduned yn bwysig i mi?
  - Pwy a beth fydd yn cael ei effeithio gan yr adduned hon?
  - Pa mor hawdd fydd yr adduned hon i'w chadw?
  - Erbyn pryd y byddaf yn cyflawni'r adduned hon? Sut y byddaf yn gwybod fy mod wedi ei chyflawni?
- Yn olaf, gwahoddwch y dysgwyr i rannu rhai o'u haddunedau a'r rhesymau dros eu dewisiadau â'r dosbarth cyfan.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd – Addunedau'r dosbarth

- Gan ddefnyddio eu syniadau o'r gweithgaredd Beth y gallaf ei wneud er mwyn gwneud gwahaniaeth?, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau a dewis pum adduned i'r dosbarth cyfan weithio tuag atynt.
- Gofynnwch i bob pâr ymuno â phâr arall. Rhyngddynt dylai'r parau gael deg adduned. Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu haddunedau a thrafod pam y maent wedi eu dewis. Yn eu grŵp, dylai'r dysgwyr wedyn gytuno ar bum adduned ar gyfer y dosbarth cyfan.
- Yna dylai pob grŵp o bedwar ddod o hyd i grŵp arall ac ailadrodd y gweithgaredd. Arddangoswch yr addunedau ar y bwrdd a gwahoddwch y dysgwyr i roi rhesymau pam y maent yn meddwl bod pob un yn bwysig. Y nod yw perswadio gweddill y grŵp i gytuno â hwy. Rhowch bum smotyn gludiog i bob dysgwr ac eglurwch eu bod yn cynrychioli pleidleisiau. Gofynnwch i'r dysgwyr osod eu smotiau gludiog ar y bwrdd yn ymyl eu hoff adduned(au). Gallant ddefnyddio cynifer (neu gyn lleied) o smotiau ag y dymunant ar gyfer pob adduned.
- Y pum adduned sydd â'r nifer mwyaf o smotiau fydd addunedau'r dosbarth. Gofynnwch i'r dysgwyr greu arddangosfa dosbarth fel bod pob dysgwr yn gallu gweld y pum adduned.

Gweithgaredd – Myfyrio ar addunedau

- Gellid gwneud y gweithgaredd hwn yn achlysurol neu ar ddiwedd y flwyddyn neu'r tymor ysgol. Byddai'n gweithio gydag addunedau unigol dysgwyr a chydag addunedau'r dosbarth cyfan.
- Gan ddefnyddio eu haddunedau, dylai'r dysgwyr gymryd ychydig o funudau i fyfyrio'n unigol ar y cwestiynau a ganlyn:
  - Beth sydd wedi gweithio'n dda?
  - Beth rydw i'n falch ohono?
  - Beth sydd heb weithio cystal?
  - Beth y gallwn i/y gallem ni ei wneud yn wahanol yn y dyfodol?

1. Trefnwch y dysgwyr yn barau a gofynnwch iddynt drafod eu syniadau.
2. Trafodwch fel dosbarth cyfan beth sydd wedi gweithio'n dda gyda'r addunedau. Anogwch y dysgwyr i ddarparu enghreifftiau a nodi beth y gallent ei wneud yn wahanol yn y dyfodol.
3. Yn olaf, cefnogwch y dysgwyr i greu posteri i ddangos beth y maent wedi ei gyflawni, yn ogystal â'u bwriadau ar gyfer y dyfodol.
   - Eleni rwyf wedi …
   - Yn y dyfodol byddaf yn …

'Efallai na fyddwch fyth yn gwybod pa ganlyniadau a fydd yn deillio o'ch gweithredoedd, ond os na wnewch chi unrhyw beth, ni fydd yna unrhyw ganlyniadau.'

Mohandas Gandhi

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dolenni ac adnoddau defnyddiol

- Mae ein canllaw Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr Ystafell Ddosbarth yn llawn offer ymarferol a chyngor i athrawon sydd eisiau ymgorffori dinasyddiaeth fyd-eang yn eu hystafelloedd dosbarth. Dysgwch sut i fynd ati'n effeithiol i gynnwys lens fyd-eang yn eich addysgu, gan ddefnyddio ein fframwaith cynllunio defnyddiol, ein dulliau cyfranogi, a'n hoffer i asesu'r dysgu.
- Mynnwch olwg ar yr adnodd Get Global! i gael llu o syniadau ynglŷn â sut i hwyluso dinasyddiaeth fyd-eang weithredol. Rhowch gymorth i'r dysgwyr symud o feddwl yn feirniadol am faterion sy'n bwysig iddynt, i gynllunio a chymryd rhan mewn camau gweithredu a myfyrio ar eu perfformiad ac asesu eu gwaith. Er bod yr adnodd wedi'i anelu at ddysgwyr 11-16 oed, gellir addasu llawer o'r gweithgareddau yn rhwydd ar gyfer dysgwyr iau.
- Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn gyfres o nodau a thargedau uchelgeisiol a brys sy'n anelu at newid ein byd er gwell. Yn llawn cyngor ymarferol, gwybodaeth ddefnyddiol, syniadau ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd ac astudiaethau achos ysbrydoledig; nod y canllaw hwn yw dyfnhau dealltwriaeth athrawon o addysg *am* y Nodau Datblygu Cynaliadwy ac *ar eu cyfer*.
- Mae Oxfam yn fudiad byd-eang lle mae miliynau o bobl yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn dileu tlodi a chreu dyfodol mwy caredig, teg, diogel a chynaliadwy. Gallwch ddarganfod mwy ynglŷn â sut y mae Oxfam yn gweithio er mwyn sicrhau newid yn y DU ac ar hyd a lled y byd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.